Dogfen ir Cyhoedd

**CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

18 Ionawr/January, 2017

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD ARBENNIG O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod Arbennig o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar **ddydd Mercher, 25 Ionawr 2017 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 2.00 o'r gloch y prynhawn** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Dr Gwynne Jones*
**YSGRIFENNYDD**

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**SPECIAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a Special meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Wednesday, 25 January, 2017 to be held at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 2.00 p.m.,** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Dr Gwynne Jones*
**SECRETARY**

**Ysgrifennydd/Secretary :** Dr. Gwynne Jones **Trysorydd/Treasurer :** Mr. Marc Jones

**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a gafwyd ar 15 Rhagfyr, 2016.

3 **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015/16** (Tudalennau 7 - 24)

Cyflwyno, i'w mabwysiadu, adroddiad mewn perthynas ac Adroddiad Blynyddol 2015/16.

4 **CYLLIDEB 2017/18** (Tudalennau 25 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Victor Hughes (Cadeirydd)<br><br>R Dew, Jim Evans, Jeffrey M Evans, John Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, G O Jones, Richard Owain Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers , Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas ac Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Lewis Davies, Ann Griffith, T Ll Hughes, Carwyn Jones, H E Jones, R Ll Jones ac R G Parry OBE |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. William Colacicchi a Ms.Vicky Hair - Browne Jacobson LLP |

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2016 fel rhai cywir.

**3 ADRODDIADAU GAN IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL**

- **Pwyllgor Grantiau Cyffredinol**

  Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a gynhaliwyd ar 13 Hydref, 2016 fel rhai cywir.

- **Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau**

  Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd, 2016 fel rhai cywir.

**4 GRANTIAU MWY - ADRODDIAD AR GYNNYDD**

Cyflwynwyd - adroddiad diweddaru gan y Trysorydd ar y broses ymgeisio ar gyfer grantiau mwy.

Dywedodd y Trysorydd y dyfarnwyd pump o grantiau mawr yn ystod 2016/17 - Cwmni Frân Wen, Eisteddfod Genedlaethol 2017, Menter Iaith, Cymdeithas Cae Sioe Môn a Menter Gymdeithasol Llangefni. Nododd bod cytundebau grant ffurfiol wedi eu rhoi i Menter Iaith a Cwmni Frân Wen. Bu rhywfaint o lithriad yn y datblygiadau ynghylch y grant ar gyfer Cymdeithas Cae Sioe Môn, ond mae eu cyfreithwyr yn adolygu contract drafft ar hyn o bryd. Mae Menter Gymdeithasol Llangefni yn dal i aros am ganlyniad eu cais am arian Loteri ac ni fydd y contract yn cael ei gyhoeddi tan y cafwyd cadarnhad o'u cyllid cyfatebol. Ni chyhoeddir contract i Eisteddfod Genedlaethol 2017 tan yn nes at y digwyddiad yn 2017. Mae trefnwyr yr Eisteddfod wedi nodi y bydd newid bach yn sut y defnyddir y grant a ddyfarnwyd o gymharu â'r hyn a amlinellwyd yn y cais, a hynny oherwydd eu bod wedi cyrraedd y targed ar gyfer cronfeydd lleol. Mae'r Eisteddfod yn awr yn bwriadu defnyddio mwy o'r grant fel nawdd corfforaethol gyda'r Ymddiriedolaeth yn noddi'r Eisteddfod ar y dydd Sadwrn a'r dydd Sul agoriadol. Bydd yr arian hwn yn caniatáu ar gyfer gostwng prisiau mynediad ar gyfer y ddau ddiwrnod er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd fynychu am bris gostyngol.

Mae cyllideb o £350k wedi'i neilltuo ar gyfer 2017/18 i grantiau mawr ac fe lansiwyd y broses ymgeisio ym mis Tachwedd gyda dyddiad cau o 6 Ionawr 2017 ar gyfer cyflwyno ceisiadau.

Dywedodd y Trysorydd ymhellach yr amcangyfrifwyd ar 30 Tachwedd, 2016 y bydd yr Incwm Buddsoddi ar gyfer 2016/17 yn £640,358.48. Mae hyn yn seiliedig ar Adroddiad Datganiad Asedau gan Fanc HSBC a'r ffigur hwn yw'r gyllideb y rhagwelir y bydd hi ar gael i ddyrannu grantiau i Sefydliadau Gwirfoddol yn 2017/18.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**

**"Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A (Categori 16) o'r Ddeddf honno. "**

**6 ADOLYGIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHIANT YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas ag opsiynau ar gyfer y Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) y penderfynodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016, y dylid ei ffurfio.

Cafodd aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol gyflwyniad gan gynrychiolwyr o Browne Jacobson ar fanylion penodol, opsiynau a chyngor cyfreithiol mewn perthynas â ffurfio

SCE. Trafododd yr Ymddiriedolaeth y Cyfansoddiad Enghreifftiol ar gyfer SCE sef y Model ‘Sylfaen’ a’r Model ‘Cyswllt’.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn ffurfio Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) Cyswllt ac yn newid i fod yn SCE o’r fath ac yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i weithredu'r penderfyniad hwnnw;**
- **Bod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn mabwysiadu'r argymhellion canlynol wrth sefydlu Sefydliad Corfforedig Elusennol Cyswllt: -**

    - **Bod yr SCE Cyswllt, yn y lle cyntaf, yn cynnwys Aelodau a Chyfarwyddwyr a byddant yr un bobl a bydd pob un ohonynt yn aelodau etholedig o Gyngor Sir Ynys Môn ( 'Aelodau Etholedig);**
    - **Bydd enw'r Ymddiriedolaeth yn ddwyieithog (gyda'r enw Cymraeg yn gyntaf) a’r enw Saesneg wedyn, sef Cymdeithas Elusennol Ynys Môn / Isle of Anglesey Charitable Association;**
    - **Bydd amcanion elusennol y Gymdeithas Ymddiriedolaeth Elusennol newydd yn aros fel y maent ar hyn o bryd;**
    - **Ni fydd unrhyw atebolrwydd ar aelodau o’r Gymdeithas Ymddiriedolaeth Elusennol pe bai’r Gymdeithas yn dod i ben;**
    - **Bydd gan y Gymdeithas Ymddiriedolaeth Elusennol un categori o aelodau ond bydd ganddi rym i ymestyn yr aelodaeth i 'gyfeillion heb bleidlais' ar ryw adeg yn y dyfodol;**
    - **Y Cworwm ar gyfer cyfarfodydd o’r aelodau o’r Gymdeithas Ymddiriedolaeth Elusennol fydd 5% o'r aelodaeth;**
    - **Bydd gan Gadeirydd cyfarfod yr aelodau o'r Gymdeithas Ymddiriedolaeth Elusennol bleidlais fwrw os bydd nifer y pleidleisiau a gafodd eu bwrw mewn cyfarfod o’r fath yn gyfartal;**
    - **Yr isafswm oed i fod yn ymddiriedolwr fydd 16;**
    - **Isafswm nifer yr ymddiriedolwyr fydd 3;**
    - **Ni fydd uchafswm ar gyfer nifer yr ymddiriedolwyr;**
    - **Bod yr holl Ymddiriedolwyr ar adeg sefydlu’r Gymdeithas Ymddiriedolaeth Elusennol yn Aelodau Etholedig;**
    - **Bod 2 Ymddiriedolwr Annibynnol;**
    - **Mai’r cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Ymddiriedolwyr fydd 5;**
    - **I'r graddau y bydd y gyfraith yn caniatáu, bydd yr Ymddiriedolwyr yn aelodau etholedig sy'n cynrychioli wardiau etholiadol Ynys Môn;**
    - **Bydd Ymddiriedolwyr newydd yn cael eu penodi gan yr Ymddiriedolwyr cyfredol;**
    - **Bydd cyfnodau swydd yr Ymddiriedolwyr yr un fath â chyfnodau swydd yr Aelodau Etholedig;**
    - **Bydd cyfnodau swydd yr Ymddiriedolwyr Annibynnol yn 3 blynedd a gallant wasanaethu am unrhyw nifer o gyfnodau ar yr amod nad ydynt yn gwasanaethu am ragor na 2 gyfnod yn olynol;**
    - **Rhoddir awdurdod i Aelodau o’r Gymdeithas Ymddiriedolaeth Elusennol ddiswyddo Ymddiriedolwr o’r Gymdeithas;**
    - **Bydd gan Gadeirydd y cyfarfod o Gyfarwyddwyr y Gymdeithas Ymddiriedolaeth Elusennol bleidlais fwrw os bydd nifer y pleidleisiau a gafodd eu bwrw mewn unrhyw gyfarfod o’r fath yn gyfartal;**

- **Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r holl bwerau, hawliau a swyddogaethau gwneud penderfyniadau eraill ar ran Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn er mwyn sicrhau'r trawsnewid i fod yn SCE Cyswllt - gan gynnwys unrhyw benderfyniad ar fater ategol neu atodol ar ran Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Gall Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth ymgynghori hefyd gydag aelodau o'r Panel a sefydlwyd o aelodau etholedig a chyda Swyddogion o'i ddewis cyn ymarfer unrhyw hawliau, pwerau neu swyddogaethau o'r fath.**

**Mr. T. Victor Hughes**
**Cadeirydd**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn** |
| **Dyddiad :** | **25 Ionawr 2017** |
| **Teitl yr Adroddiad :** | **Adroddiad Blynyddol 2015/16** |
| **Pwrpas yr Adroddiad :** | **I gyflwyno yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft i'w Mabwysiadu** |
| **Adroddiad Gan :** | **Trysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn** |
| **Gweithrediad :** | **Mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac awdurdodi eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau** |

Mae'r archwiliad o'r adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft ar gyfer 2015/16 wedi eu cwblhau ac, felly, fe'u cyflwynir i'w mabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Gwahoddir yr Ymddiriedolaeth Elusennol i fabwysiadu'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a gyflwynir, ac i awdurdodi Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth i arwyddo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon â'r llythyr o gynrychiolaeth yr archwiliad.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD –**
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **18 IONAWR 2017**

# YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

# ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2015/2016

## ANNUAL REPORT

Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn / Isle of Anglesey Charitable Trust
Swyddfa'r Sir / County Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Gofrestredig : 1000818

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015/16

## GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

### GWEITHRED YMDDIRIEDOLAETH

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif Elusen Gofrestredig 1000818) ar 5 Mehefin 1990 ac mae Gweithred Ymddiriedolaeth gyda'r dyddiad hwn arni yn nodi dyletswyddau, pwerau ac amodau y bydd raid i'r Ymddiriedolaeth gydymffurfio gyda nhw.

### YMDDIRIEDOLWR

Unig Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn. Y rhai mewn swydd oedd :-

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | - | Thomas Victor Hughes |
| Is-Gadeirydd | - | Aled Morris Jones (hyd at 13 Gorffennaf 2015)<br>Trevor Lloyd Hughes (o 13 Gorffennaf 2015) |
| Ysgrifennydd | - | Prif Weithredwr Y Cyngor:<br>Richard Parry Jones (hyd at 1 Mehefin 2015)<br>Dr William Owen Gwynne Jones (o 1 Mehefin 2015) |
| Trysorydd | - | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y Cyngor Dros Dro:<br>Richard Micklewright (hyd at 26 Hydref 2015)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog A151 y Cyngor:<br>Marc Jones (o 26 Hydref 2015) |
| Cyfreithiwr | - | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro y Cyngor: Lynn Ball L.L.B. (Hons) |

**CYNGHORWYR**

Y rhain oedd yn cynghori'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2015/16:-

| | | |
|---|---|---|
| Bancwyr | : | HSBC Cyf<br>Stryd Fawr<br>Llangefni<br>LL77 7LU |
| Archwilwyr | : | Y Mri W.J.Matthews a'i Fab<br>Cyfrifwyr Siartredig<br>11 - 15 Y Bont Bridd<br>Caernarfon<br>LL55 1AB |
| Rheolwyr Buddsoddi: | | HSBC Private Bank (UK) Limited<br>78 James's Street<br>Llundain<br>SW1A 1JB |

**STRWYTHUR LLYWODRAETHU A RHEOLI**

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn, rhagflaenydd i'r Cyngor Sir, i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gyda'r arian a roddwyd i'r Cyngor pryd yr oedd Shell (UK) Ltd yn rhoi'r gorau i weithio'r Lanfa Olew ym Môn. Rhoddwyd yr arian hwn gan Shell (UK) Ltd dan Ddeddf Seneddol breifat - Deddf Glanfa Môn 1972, sef deddf a oedd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor "i ddefnyddio'r arian yn un swydd er lles Ynys Môn neu ei thrigolion".

Mae gan y Cyngor Sir 30 Aelod etholedig sydd, ar gyfer gweithredu fel Ymddiriedolwr, yn cyfarfod ar wahân i'w cyfarfodydd fel awdurdod lleol. Mae Aelodau etholedig newydd yn cael eu briffio ar amcanion ac ar sut y gweinyddir yr Ymddiriedolaeth. Cefnogir yr holl Aelodau etholedig gan swyddogion y Cyngor, sy'n derbyn hyfforddiant rheolaidd fel rhan o'u swyddi. Cynhelir cyfarfodydd llawn, fel Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, o leiaf ddwywaith y flwyddyn er mwyn penderfynu ar bolisi ac ar wariant am y flwyddyn. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol dri phwyllgor, gyda phob Aelod o'r Cyngor yn aelod o un ohonynt (a Chadeirydd ac Is-gadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn aelodau ex officio o bob un):-

> Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau, oedd a deg o aelodau yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am weinyddu buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth trwy'r ymgynghorwyr buddsoddi, am faterion ynglŷn â'r eiddo sydd ym mherchenogaeth yr Ymddiriedolaeth ac am faterion cytundebol eraill.
>
> Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, oedd a deg aelod yn ystod y flwyddyn. Mae'n penderfynu ar raglen grantiau blynyddol a gyllidir o gyllideb refeniw'r Ymddiriedolaeth Elusennol a benderfynir gan y corff llawn a'i ddirprwyo i'r Pwyllgor hwn.
>
> Pwyllgor Adfywio, oedd a deg aelod yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn penderfyniad i neilltuo cyllid at amcanion adfywio, mae'r Pwyllgor Adfywio yn penderfynu ar grantiau adfywio ac yn monitro cynnydd ar gynlluniau adfywio.

Mae swyddogion yr Ymddiriedolaeth Elusennol ac, ar adegau, swyddogion eraill y Cyngor Sir, yn rhoi cyngor i'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn ei gyfarfodydd. Ychydig o benderfyniadau sydd wedi eu dirprwyo iddynt.

Mae gweithgareddau dyddiol, fel y'u cymeradwyir gan yr Ymddiriedolaeth, yn cael eu gweinyddu ar ran yr Ymddiriedolaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae rhai nodweddion y broses ceisio am grant yn gyffredin i'r Ymddiriedolaeth hon a chronfeydd eraill a weinyddir gan y Cyngor Sir er mwyn hwyluso'r broses i ymgeiswyr. Nid yw'r Cyngor yn codi am wasanaethu i'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r risgiau sylweddol y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel sydd wedi eu hadnabod gan yr Ymddiriedolwr, wedi eu hadolygu, a sefydlwyd systemau neu gweithdrefnau i leihau'r risg.

**AMCANION A GWEITHGAREDDAU**

Cyfyngir amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth i les cyhoeddus a chyffredinol y bobl hynny sy'n byw ar Ynys Môn, yn cynnwys:-

darparu mwynderau a chyfleusterau;
cadwraeth adeiladau;
cadwraeth a gwarchodaeth tir;
gwarchod a diogelu'r amgylchedd.

Cyrhaeddir y nod hwn trwy gyfrannu tuag at wario ar wasanaethau er lles y cyhoedd a thrwy roddi grantiau i gyrff elusennol a gwirfoddol.

Mae'r cyfyngiadau ar ddulliau rhedeg yr Ymddiriedolaeth wedi eu nodi yn y Weithred Ymddiriedolaeth. Y prif bwerau yw hybu amcanion elusennol a gwneud trefniadau i bwrpas rheoli a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth fel y tybir yn addas.

Mae gwaddol gan yr Ymddiriedolaeth, y gellid ei wario ar yr amod bod dwy ran o dair o'r aelodau yn cymeradwyo penderfyniad i'r perwyl. Mae wedi mabwysiadu amcan tymor-hir y dylai gwerth y gwaddol dyfu yn ôl chwyddiant. Mae'r incwm buddsoddi yn cyllido rhan o gostau rhedeg Oriel Ynys Môn a rhaglen grantiau blynyddol.

**POLISI DYRANNU GRANTIAU**

Dyrennir grantiau o'r incwm buddsoddi blynyddol i elusennau, mudiadau gwirfoddol a chyrff lleol eraill ar gyfer prosiectau ar Ynys Môn. Mae rhain ar gyfer grantiau bach (llai na £8,000) ac mae'r Ymddiriedolwr yn gwahoddi am geisiadau gyllid, unwaith yn y flwyddyn fel arfer, trwy hysbysebu yn y papurau lleol. Gwneir cais trwy ffurflen gais safonol.

Cyllidir grantiau mwy, hefyd, o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y buddsoddiadau a ddelir. Y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau sy'n penderfynnu'r gwerth i'w ddyrannu yn seiliedig ar berfformiad y gronfa yn y blwyddyn blaenorol a'r perfformiad rhagwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dyrennir y grantiau mwy (dros £8,000) i sefydliadau sy'n cwrdd a dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth ac mae'r Ymddiriedolwr yn gwahoddi am geisiadau gyllid, unwaith yn y flwyddyn fel arfer, trwy hysbysebu yn y papurau lleol. Gwneir cais trwy ffurflen gais safonol.

Gwneir dyraniadau yn flynyddol i'r mathau canlynol o brosiectau:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bychain);
Neuaddau Pentref (costau rhedeg blynyddol);
Grantiau bach (grantiau bychain unwaith-ac-am-byth yn bennaf sydd yn llai na £8,000);
Grantiau mawr (grantiau mawr unwaith-ac-am-byth yn bennaf sydd yn fwy na £8,000).

## POLISI YNGLŶN Â'R ARIAN WRTH GEFN

Canlyniad y strategaeth ariannol a fabwysiadwyd yn 2009 yw nad oes angen rhagor ar arian wrth gefn cyfalaf ar wahân, heblaw i adnabod ymrwymiadau hanesyddol. Oherwydd gall rhai o'r ymrwymiadau ariannol cael ei wneud dros gyfnod o fwy nag un flwyddyn ariannol, mae'r arian wrth gefn cyffredinol yn cael ei alluogi i fynd i ddiffyg ar yr amod fod llif arian yn ei ddod yn ôl i warged erbyn bydd yr ymrwymiad yn cael ei anrhydeddu'n llawn.

Mae'r Ymddiriedolwr yn ystyried fod lefel gyfredol yr arian wrth gefn yn ddigonol i ddarparu incwm buddsoddi yn y dyfodol ar gyfer taliadau grant a hefyd ar gyfer costau cefnogi llywodraethu.

## CYFLAWNI A PHERFFORMIAD

Rhoddwyd grantiau i 68 o gyrff gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt ac y mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn ffynhonnell bwysig o gyllid i elusennau lleol a chyrff chwaraeon a rhai gwirfoddol.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gyllido Oriel Ynys Môn sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor Sir.

Yn ystod y flwyddyn, roedd Oriel Ynys Môn ar agor 361 diwrnod, gan gyrraedd ei darged ar gyfer dyddiau agor.

Yn ystod y flwyddyn, ddaru'r Oriel:-

- Denu 88,984 o ymwelwyr, gostyngiad o 0.04% ar gyfanswm y flwyddyn flaenorol o 89,019;
- Cynnal 9 arddangosfa celf gyfoes a 5 arddangosfa celf hanesyddol;
- Cynnal 4 arddangosfa amgueddfa;
- Cynnal 6 o weithgareddau plant a theuluoedd;
- Cynnal 18 ymweliad addysgiadol;
- Rhoi 1 sgwrs yn y gymuned am yr Oriel a'r casgliadau;
- Cynnal 6 o weithdai prosiectau arbennig;
- Cynnal 37 o weithgareddau ar gyfer oedolion;
- Cynnal 2 sgwrs y tu ôl i'r llenni;
- Derbyn 62 ymholiad gan y cyhoedd ynglŷn â'r casgliadau; a
- Gweithio hefo 36 o bartneriaid, lleol a chenedlaethol yng Nghymru a thrwy gydol Prydain, ar wahanol lefelau i ehangu a datblygu enw da'r Oriel a phroffil Ynys Môn.

Yn ychwanegol, eto eleni mae wedi cael y Wobr Cynllun Sicrhau Ansawdd i Atyniadau Ymwelwyr Cymru (rhoddwyd gan Visit Wales) gyda sgor uwch o 82%.

## PERFFORMIAD BUDDSODDI

Mae gan yr Ymddiriedolaeth bwerau buddsoddi eang sy'n cynnwys prynu stociau, cyfranddaliadau, gwariannau ac eiddo o bob math pa un a ydynt yn cynhyrchu incwm ai peidio â beth bynnag fo'r risgiau cysylltiedig. Disgrifir y pwerau hyn yn y Weithred Ymddiriedolaeth.

Mae'r perfformiad hyd yma yn erbyn yr amcan tymor-hir y dylai gwerth y gwaddol dyfu yn ôl chwyddiant, wedi ei glandro heb gynnwys gwerth y tir, fel a ganlyn:-

Ers 1990: Targed: £14.629m Gwerth ar 31/03/16: £18.939m, sef £4.310m uwchlaw'r targed.

### Incwm Buddsoddiadau

Targed : £409,978    Cyflawni : £585,561, sef £175,583 uwchlaw'r targed.

**Perfformiad i'w gymharu â'r meincnod**

Y strategaeth gytunedig ar gyfer y tymor canol yw ychwanegu 1% y.f. uwchben y meincnod dros gyfnod treigl 3 blynedd, gyda'r meincnod dilynol ar gyfer dyrannu asedau:-

| | |
|---|---|
| Ecwitïau'r DU | 40.0% |
| Ecwitïau Tramor | 22.5% |
| Llog Sefydlog | 29.0% |
| Eraill | 6.0% |
| Arian Parod | 2.5% |

Nid oes yna ffî yn gysylltiedig â pherfformiad ond mae yna ffî gyson o 0.25% yn cael ei godi, sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn.

## ADOLYGIAD ARIANNOL

Roedd yr incwm buddsoddi gros a ragwelwyd am y flwyddyn yn £409,978. Ar ei diwedd, roedd yr incwm buddsoddi yn £585,561 (2014/15: £536,824). Yn ychwanegol, disgynodd y buddsoddiad portffolio mewn gwerth o £0.516m dros y flwyddyn.

Roedd y gyllideb refeniw am y flwyddyn yn caniatáu dyrannu grantiau o £737,766 (£714,178 yn 2014/15).

## DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Ar gyfer 2016/17, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth y dyfarniadau grant canlynol o fewn y categorïau blynyddol arferol:-

- Cyfleusterau Cymunedol: £125,000;
- Neuaddau Pentref: £80,000; ac
- Oriel Ynys Môn: £ 215,000.

Yn ychwanegol i'r uchod, gwnaed y dyfarniadau grant isod gan yr Ymddiriedolaeth :-

- Menter Iaith - £50,000 am un flwyddyn yn unig;
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru - £37,500 am un flwyddyn yn unig;
- Llangefni Social Enterprise - £37,500 – yn amodol y cawn cadarnhad bydd ffynhonellau cyllidol eraill yn cael ei sicrhau a fod y cynllun yn mynd yn ei flaen; a
- Cwmni Fran Wen - £45,000 am un flwyddyn yn unig.

Bwriad yr Ymddiriedolaeth yw i ddod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol.

## CYNLLUNIAU I'R DYFODOL

Mae'r datganiadau cyllidol wedi eu paratoi yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau (2005), ac maent yn cydymffurfio â gweithred ymddiriedolaeth yr Elusen a chyfraith berthnasol.

Yng nghyfarfod yr Ymddiriedolaeth ar 25 Ionawr 2017 rhoddwyd cymeradwyaeth i Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwr ac i'r Cyfrifon sy'n ymddangos ar dudalennau 7 i 15.

**Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwr ar** 25 Ionawr 2017

**a llofnodwyd ar ei ran gan: ……………………………………………**

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Rhif Elusen Gofrestredig: 1000818

## DATGANIAD AR WEITHGAREDDAU CYLLIDOL DROS Y FLWYDDYN A DDARFU AR 31 MAWRTH 2016

| 2014/15 £ | Adnoddau i mewn | NODYN £ | Y GRONFA GYFFREDINOL £ | Y GRONFA GYFALAF £ | CYFANSWM £ |
|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm Buddsoddi | | | | |
| 534,952 | - Difidend a llog sefydlog ar fondiau | | 584,688 | - | 584,688 |
| 1,872 | - Llog | | 873 | - | 873 |
| 536,824 | | 2 | 585,561 | - | 585,561 |
| - | Rhent Tir | | - | - | - |
| 440 | Incwm arall | | - | 420 | 420 |
| 537,264 | **Cyfanswm Adnoddau i mewn** | | 585,561 | 420 | 585,981 |
| | **Adnoddau wedi eu gwario** | | | | |
| | Costau Cynhyrchu Cronfeydd | 3 | | | |
| 44,459 | Costau Rheoli Buddsoddiadau | | 43,489 | - | 43,489 |
| 33,274 | Costau Cyfreithiol a Marchnata | | - | 32,343 | 32,343 |
| 77,733 | **Cyfanswm costau cynhyrchu cronfeydd** | | 43,489 | 32,343 | 75,832 |
| **459,531** | **Adnoddau net i mewn ar gael ar gyfer gwariant elusennol** | | **542,072** | **(31,923)** | **510,149** |
| | **Gweithgareddau Elusennol** | | | | |
| | Grantiau er hyrwyddo amcanion yr Elusen | 5 | | | |
| 215,000 | - Cyngor Sir Ynys Môn – Oriel Ynys Môn | | 215,000 | - | 215,000 |
| 184,178 | - Cyrff Cymunedol a Gwirfoddol | | 182,766 | - | 182,766 |
| 315,000 | - Grantiau Mawr | | 340,000 | - | 340,000 |
| - | Llai Grantiau heb eu hawlio | | - | - | - |
| 714,178 | **Cyfanswm cost Grantiau a Gweithgareddau** | | 737,766 | - | 737,766 |
| | **Llywodraethu** | | | | |
| 3,780 | Ffioedd a Chostau | 6 | 3,372 | 4,738 | 8,110 |
| **717,958** | **Cyfanswm Gwariant Elusennol** | | **741,138** | **4,738** | **745,876** |
| | | | | | |
| **795,691** | **Cyfanswm Adnoddau wedi eu gwario** | | **784,627** | 37,081 | **821,708** |
| **(258,427)** | **Adnoddau Net i mewn** | | **(199,066)** | **(36,661)** | **(235,727)** |
| | **Enillion a Cholledion Eraill** | | | | |
| 1,426,223 | Enillion/(colledion) o ganlyniad i ailbrisiant a gwerthiant asedau buddsoddi | 14 | - | (725,551) | (725,551) |
| 1,167,796 | **Symudiadau Net o Gronfeydd** | | **(199,066)** | (762,212) | (961,278) |
| 18,863,093 | **Cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2015** | | (7,302) | 20,038,191 | 20,030,889 |
| **20,030,889** | **Cronfeydd a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth 2016** | | **(206,368)** | **19,275,979** | **19,069,611** |

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Gofrestredig : 1000818

## Y FANTOLEN FEL AR 31 MAWRTH 2016

| 2015<br>£ | | NODYN | £ | £ |
|---|---|---|---|---|
| | **Asedau Sefydlog** | | | |
| 3,000,000 | Eiddo buddsoddi | 7 | | - |
| 17,709,850 | Buddsoddiadau | 8 | | 17,193,254 |
| 20,709,850 | | | | 17,193,254 |
| | **Asedau Cyfredol** | | | |
| 44,684 | Dyledwyr ac Incwm wedi ei gronni | 9 | 44,205 | |
| 39,795 | Arian yn y Banc | | 2,759,836 | |
| 84,479 | | | | 2,804,041 |
| | **Ymrwymiadau** : Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | | |
| (299,927) | Credydwyr | 10 | (549,673) | |
| (463,513) | Grantiau heb eu talu | 11 | (378,011) | |
| (763,440 | | | | (927,684) |
| **(678,961)** | **Yr Asedau / (Ymrwymiadau) Cyfredol Net** | | | **1,876,357** |
| **20,030,889** | **Yr Asedau Net** | | | **19,069,611** |
| | **Cronfeydd** | 12 | | |
| (7,302) | Cronfeydd heb eu Cyfyngu : Y Gronfa Gyffredinol | | | (206,368) |
| 20,033,981 | : Cyfalaf | | | 19,276,507 |
| 4,210 | : Grantiau i'w Dyrannu o'r Cyfalaf | | | (528) |
| **20,030,889** | | | | **19,069,611** |

**Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwr ar** 25 Ionawr 2017.

**a llofnodwyd ar ei ran gan** ………………………………………..

## NODIADAU I'R DATGANIADAU CYLLIDOL

### 1. POLISÏAU CYFRIFO

**(a)** **Sail Cyfrifo:** Mae cyfrifon yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi eu paratoi yn ôl egwyddor cost hanesyddol, fel y'i cymhwyswyd gan ailbrisio asedau buddsoddi, ac maent yn gyson â'r Datganiad o Ymarfer Cymeradwy ar gyfer Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005 a gweithred ymddiriedolaeth yr Elusen a chyfraith berthnasol.

**(b)** Mae'r **grantiau sy'n daladwy** yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon pan fo'r dyraniad wedi ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth, a phan mae unrhyw amod a roddwyd ar y cyllid wedi ei gyflawni.

**(c)** Mae'r **incwm buddsoddiadau** yn gynwysedig yn y cyfrifon:-

- am adneuon tymor byr a balansau ar sail gronedig ddyddiol;
- am ecwiti - pan gyhoeddir stoc fel cyn-rhandal;
- am renti – yn y flwyddyn y mae'n codi;
- am gronfeydd cyfun ac incwm arall, pan dderbynnir yr incwm.

Mae'r elfen gyffredin o'r stoc a dderbynnir yn lle difidend arian parod yn cael ei thrin fel incwm i'r gronfa.

**(ch)** **Gwariant**: Cynhwysir gwariant ar sail gronedig. Mae costau wedi eu rhannu i gategorïau pwrpasol yn y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol. Costau cynhyrchu incwm yw'r costau hynny sy'n codi'n uniongyrchol o wella, diogelu neu farchnata'r eiddo buddsoddi a chostau rheoli'r portffolio buddsoddiadau a chodi incwm buddsoddiadau.

Mae gwariant elusennol yn cynnwys grantiau i gyrff gwirfoddol a lleol a chyfraniadau i wasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd wedi cynnwys gwariant uniongyrchol ar adeilad hanesyddol ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth. Codir y rhain yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad i gynnig grant. Lle mae cyrff wedi cael eu hysbysu o fwriad i gynnig grant yn y dyfodol, nodir hynny heb eu cronni yn y cyfrifon.

Mae rheoli a gweinyddu yn cynnwys taliadau i drydydd partion yn ymwneud a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth.

**(d)** **Buddsoddiadau**: Mae buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth wedi eu prisio yn ôl pris canolig y farchnad ar gau'r farchnad ar ddyddiad y fantolen, ar wahân i fuddsoddiadau cyfun sydd wedi eu prisio yn ôl y pris bidio.

Mae enillion neu golledion o werthu neu ailbrisio buddsoddiadau yn cael eu codi ar neu eu rhoi ar gredyd yn y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol.

**(dd)** **Eiddo Buddsoddi**: Gweler nodyn 7 i'r cyfrifon.

**(e)** **Cronfeydd**: Rhoddir eglurhad o natur a phwrpas pob cronfa yn nodyn 12.

## 2. INCWM BUDDSODDI

Daw'r cyfan bron o incwm yr Ymddiriedolaeth o fuddsoddiadau yn nwylo'r Rheolwyr Buddsoddi. Mae eu ffioedd yn amodol ar berfformiad y buddsoddiadau ac mae incwm yn cael ei ragamcanu yn net o ffioedd. Roedd cyfanswm incwm ar fuddsoddiadau (heb gynnwys rhenti tir) yn 2015/16 yn £585,561 (£536,824 yn 2014/15).

## 3. COSTAU CYNHYRCHU'R CRONFEYDD

Rhain yw costau rheoli'r eiddo buddsoddi a'r ffi i'r Rheolwyr Buddsoddi.

| | 2015/16<br>£ | 2014/15<br>£ |
|---|---|---|
| Ffi'r Rheolwyr Buddsoddi | 43,489 | 44,459 |
| Costau Marchnata yn ymwneud â'r gwerthiant arfaethedig o'r tir yn Rhosgoch | 32,343 | 33,274 |
| | 75,832 | 77,733 |

Mae'r gost o wella, diogelu neu farchnata'r eiddo buddsoddi yn dod o'r Gronfa Gyfalaf. Codir rhan gyntaf o ffi'r Rheolwyr Buddsoddi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol ac unrhyw gost ychwanegol am berfformiad gwell na'r cyffredin, £dim ar gyfer 2015/16 (2014/15 : £437), yn erbyn y Gronfa Gyfalaf.

## 4. CYDNABYDDIAETH YMDDIRIEDOLWR A THRAFODION CYFFELYB

Ni dderbyniodd unrhyw aelod o'r Ymddiriedolaeth unrhyw gydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn. Ad-dalwyd costau teithio o £239 (2014/15: £191) i aelodau'r Ymddiriedolaeth.

## 5. GRANTIAU

Dyma'r gwariant elusennol uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol (a ariennir o'r Gronfa Cyffredinol, heblaw y nodir fel arall):-

| | 2015/16<br>£ | No | 2014/15<br>£ | No |
|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | | | | |
| - Oriel Ynys Môn | 215,000 | 1 | 215,000 | 1 |
| **Grantiau i gyrff cymunedol a gwirfoddol** | | | | |
| - Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Chyrff Elusennol Arall | 102,766 | 26 | 104,178 | 30 |
| - Costau Rhedeg Neuaddau Pentref | 80,000 | 35 | 80,000 | 36 |
| **Grantiau Mawr** | | | | |
| - CCTV | - | - | 195,000 | 1 |
| - Gemau yr Ynysoedd | 40,000 | 1 | 50,000 | 1 |
| - Urdd Gobaith Cymru | 40,000 | 1 | 40,000 | 1 |
| - Clwb Ffermwyr Ifanc | 30,000 | 1 | 30,000 | 1 |
| - Sioe Amaethyddol Môn | 60,000 | 1 | - | - |
| -Menter Môn | 110,000 | 1 | - | - |
| -Clwb codi pwysau Caergybi | 60,000 | 1 | - | - |
| | **737,766** | **68** | **714,178** | **71** |

Ar dudalen 15 rhestrir y grantiau hynny gwerth dros £1,000. Mae'r 68 grant a ddangosir uchod wedi eu talu i 66 o fudiadau gwahanol.

## 6. LLYWODRAETHU

Gweinyddir yr Ymddiriedolaeth am ddim gan Gyngor Sir Ynys Môn, a chynrychiola'r costau Llywodraethu ffioedd i gyrff eraill am wasanaethau arbenigol a chostau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Ymddiriedolaeth. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth staff. Ni wneir unrhyw daliadau i'r Ymddiriedolwr (y Cyngor) nac i unrhyw aelod neu swyddog unigol ac eithrio costau'r aelodau, ad-dalu taliadau a wnaed ar ran yr Ymddiriedolaeth, a'r gwariant at bwrpas elusennol a ddangosir yn 4 uchod. Dyma fanylion y costau Rheoli a Gweinyddu:-

| | 2015/16<br>£ | 2014/15<br>£ |
|---|---|---|
| Ffi'r Archwiliwr - am wasanaethau Archwilio | 2,450 | 2,325 |
| Costau Gweinyddu | 4,738 | 142 |
| Costau Teithio a Chynhaliaeth | 239 | 191 |
| Ffi ymgynghori ar gyfer gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol | - | 805 |
| Placiau | - | 300 |
| Eraill | 683 | 17 |
| | **8,110** | **3,780** |

Mae costau uniongyrchol gweinyddol yr eiddo buddsoddi yn dangos fel costau yn y Gronfa Gyfalaf. Cyfanswm costau hyn oedd £4,738 (£142 yn 2014/15).

## 7. EIDDO BUDDSODDI

Yn ystod 1995, trosglwyddodd Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn ddau ddarn o dir yn Rhosgoch a Phorth Amlwch i'r Ymddiriedolaeth a gwerth hwnnw ar y farchnad yn cael ei amcangyfrif yn £550,000. Yr oedd y tir hwn yn rhan o gytundeb terfynol cwmni Shell (UK) Cyf. (gweler Adroddiad yr Ymddiriedolwr) ac ynghlwm wrtho'r un amodau â'r rheini oedd ynghlwm wrth yr arian gwreiddiol. Gwerthwyd rhan o'r tir ym Mhorth Amlwch yn 1995/96 a gwerthwyd gweddill y tir yn Rhosgoch am £2,916,622.80 ar 9 Hydref 2015.

Nid oes gwerth i weddill y tir ym Mhorth Amlwch, sef amcangyfrif pris y farchnad, ac mae'n cael ei dynodi fel ased treftadaeth. Mae'n cynnwys un ochor i'r harbwr, sy'n dyddio'n ôl i'r 18fed ganrif, a hefyd Melin Mona, a adeiladwyd yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r tir yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i fynediad cyhoeddus i'r Felin ac mae'n ystyried cynigion i gyflawni ei amcanion cadwriaethol a gwarchod a diogelu'r amgylchedd yng nghyswllt y tir hwn.

Gwnaed y gwaith prisio yma gan Brisiwr y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2016. Mae'r prisiwr yn Aelod o'r Sefydliad Brenhinol o'r Syrfewyr Siartredig (MRICS) ac mae'n gyflogedig gan y Cyngor.

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Asedau Treftadaeth arall, na pholisi i gaffael yn weithredol unrhyw asedau ychwanegol o'r fath.

## 8. BUDDSODDIADAU

Gellir dadansoddi'r buddsoddiadau yn y fantolen fel a ganlyn:-

| | 2015/16<br>£ | 2014/15<br>£ |
|---|---|---|
| Equiti'r DU | 6,755,828 | 10,632,539 |
| Ecwiti Tramor | 4,658,462 | 3,493,115 |
| Llog Sefydlog | 3,987,458 | 2,308,945 |
| Dewisiadau arall | 1,478,311 | 863,689 |
| | 16,880,059 | 17,298,288 |
| Arian Parod | 313,195 | 409,348 |
| Yn disgwyl setliad | - | 2,214 |
| | **17,193,254** | **17,709,850** |

Mae arian parod a fuddsoddir yn cynnwys symiau bychain o arian tramor. Dangosir y cyfan o'r buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r gwerth hanesyddol cyfatebol ar 31 Mawrth 2016 fel a ganlyn:-

| | Gwerth Hanesyddol<br>£'000 | Gwerth y Farchnad<br>£'000 | Gwahaniaeth<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| UK Equity | 5,970 | 6,756 | 786 |
| Overseas Equity | 4,283 | 4,659 | 376 |
| Fixed Interest | 3,831 | 3,987 | 156 |
| Alternatives | 1,328 | 1,478 | 150 |
| | **15,412** | **16,880** | **1,468** |

Delir y buddsoddiadau trwy reolwyr buddsoddi ac yn enw enwebeion ac mae modd gwerthu'r holl ddaliadau yn ddidrafferth.

Ar ddyddiad y fantolen, 'roedd y daliadau unigol mwyaf yn bennaf mewn buddsoddiadau cyfun (HSBC FTSE All Share Index Fund, 441,501 uned: 7.71% o werth y portffolio; HSBC Investment Funds American IDX INST, 274,910 uned: 6.38% o werth y portfolio; HSBC Investment Funds Japan IDX INST, 1,051,641 uned: 5.53% o werth y portffolio a Charities Prop Property Fund, 773,737 uned: 5.36% o werth y portffolio).

| | Gwerth Hanesyddol<br>£'000 | Gwerth y Farchnad<br>£'000 | Enillion Sylewdydd<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Dygwyd Ymlaen | 13,198 | 7,298 | - |
| Gwerthiannau ac Adbryniadau | (8,526) | (10,538) | 2,012 |
| Pryniannau ac ati | 8,155 | 8,155 | - |
| FX Deals | 2,585 | - | - |
| Cyfanswm Enillion /(Colledion) yn ystod y flwyddyn | - | 1,965 | - |
| | **15,412** | **16,880** | |

Cyfrifir enillion/(colledion) a wireddir fel y gwahaniaeth rhwng incwm gwerthiant a chost hanesyddol. Cyfanswm enillion/(colledion) ar fuddsoddiadau yw cyfanswm yr enillion/(colledion) a wireddir o werthu daliadau net o unrhyw newidiadau i gost hanesyddol ynghyd ag enillion/(colledion) heb gwireddu.

## 9. DYLEDWYR AC INCWM CRONEDIG

| | 2015/16 £ | 2014/15 £ |
|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi Cronedig | 44,205 | 44,684 |
| | **44,205** | **44,684** |

## 10. CREDYDWYR A CHRONIADAU

| | 2015/16 £ | 2014/15 £ |
|---|---|---|
| Ffi Rheolwyr Buddsoddi | 12,894 | 10,917 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 534,379 | 286,910 |
| Ffi archwilio | 2,400 | 2,100 |
| Costau cyfreithiol yn ymwneud â gwaredu arfaethedig o'r tir yn Rhosgoch | - | - |
| | **549,673** | **299,927** |

## 11. DYRANIADAU NA CHAWSANT EU TALU

Grantiau yw'r rhain a roddwyd yn y blynyddoedd blaenorol â'r ymgeiswyr heb hawlio'r arian eto. Fel arfer, mae'r grantiau hynny sydd ddim yn cael eu hawlio cyn pen pedair blynedd yn cael eu dileu, ac adlewyrchir hyn yn y ffigwr hwn.

Mae'r grantiau adfywio yn cefnogi cynlluniau lle mae'r ymgeiswyr yn hawlio taliadau dros gyfnod o flynyddoedd.

## 12. CRONFEYDD

| | Cronfa Cyffredinol £'000 | Cronfa Cyfalaf £'000 | Dyrannwyd o'r Gronfa Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo Buddsoddi | - | - | - |
| Buddsoddiadau | (2,082) | 19,276 | 1 |
| Asedau Cyfredol Net | 1,876 | - | 1 |
| | **(206)** | 19,276 | **1** |

Mae'r arian parod dros ben yn unrhyw gronfa, nad oes ei angen ar gyfer hylifedd tymor byr, wedi ei fuddsoddi dros dro gyda'r Rheolwyr Buddsoddi.

Y **Gronfa Gyfalaf** yw gwaddol yr Ymddiriedolaeth ac mae'n waddol y mae modd ei wario. Mae'n cynnwys tir ac arian a dderbyniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn oddi wrth Shell (UK) Cyf. pryd y rhoddwyd y gorau i weithio eu Glanfa Olew ym Môn, ac a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 1990 a 1995, ynghyd â'r twf cyfalaf ar y symiau hyn. O bryd i'w gilydd, gellir rhyddhau cyfalaf i gyllido prosiectau penodol ar bleidlais mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodaeth yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r symudiadau yn y Gronfa Cyfalaf yn ymwneud ag enillion a cholledion ar fuddsoddiadau, yr elfen perfformiad o ffi y Rheolwyr Buddsoddi ac unrhyw gostau o wella, diogelu eu marchnata'r tir fel y dangosir yn y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol.

Mae'r balans ar Y **Gronfa Gyffredinol** yn cyfateb i'r gwarged a'r diffygion a gronnwyd dros y blynyddoedd diwethaf, sef gwarged y mae'r Ymddiriedolaeth yn rhydd i'w defnyddio yn ôl yr amcanion elusennol.

Mae incwm o'r buddsoddiadau, a'r costau eraill na chodir i'r gronfa cyfalaf yn y flwyddyn, yn ymwneud â'r Gronfa Gyffredinol digyfyngiad fel sy'n ymddangos yn y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol. Mae'r dyraniadau a wneir yn rhaglen grantiau blynyddol yr Ymddiriedolaeth hefyd yn berthnasol i'r gronfa hon.

## 13. DADANSODDIAD O SYMUDIADAU RHWNG CRONFEYDD

| | Balans dygwyd ymlaen £ | Adnoddau i mewn £ | Adnoddau wedi eu defnyddio £ | Enillion a Cholledion £ | Symundiad ar Buddsoddiadau £ | Balans i'w ddwyn ymlaen £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Gyffredinol | (7,302) | 585,561 | (784,627) | - | - | (206,368) |
| Y Gronfa Cyfalaf | 20,033,981 | 420 | (32,343) | (2,714,998) | 1,989,447 | 19,276,507 |
| Grantiau a Ddyrannwyd | 4,210 | - | (4,738) | - | - | (528) |
| | **20,030,889** | **585,981** | **(821,708)** | **(2,714,998)** | **1,989,447** | **19,069,611** |

## 14. DADANSODDIAD O'R ENILLION/(COLLEDION) AR AILBRISIADAU A GWAREDIADAU O ASEDAU BUDDSODDI

| | 2015/16 £ | 2014/15 £ |
|---|---|---|
| (Colled) gwireddu ar werthu Ased Sefydlog | (83,377) | - |
| (Colled) heb ei wireddu ar Ailbrisio | (2,631,621) | 262,669 |
| Cynnydd gwireddu yng ngwerth Buddsoddiadau a adelir | 1,989,447 | 1,163,554 |
| | **(725,551)** | **1,426,223** |
| Adnoddau net sy'n dod i mewn | **(234,937)** | **(258,427)** |
| **Cysanswm** | **(960,488)** | **1,167,796** |

## Grantiau dros £1,000 / Grants over £1,000

| Mudiad | Grant (£) | Organisation |
|---|---|---|
| Oriel Ynys Môn | 215,000.00 | Oriel Ynys Môn |
| Menter Môn | 110,000.00 | Menter Môn |
| Cymdeithas Amaethyddol Môn | 60,000.00 | Anglesey Agricultural Society |
| Clwb Codi Pwysau Caergybi | 60,000.00 | Holyhead Weightlifting |
| Urdd Gobaith Cymru* | 62,777.21 | Urdd Gobaith Cymru* |
| Gemau'r Ynysoedd* | 68,798.37 | Island Games* |
| Ffermwyr Ifanc Ynys Môn* | 60,000.00 | Anglesey Young Farmers* |
| Cyngor Cymuned Llangristiolus a Cherrigceinwen | 8,000.00 | Llangristiolus & Cerrigceinwen Comminty Council |
| Canolfan Geidiad Ynys Môn | 8,000.00 | Anglesey Guide Centre |
| Neuadd Eglwys/Canolfan Gymuned Llanfairpwll | 8,000.00 | Llanfair PG Church Hall/Community Centre |
| Ffrindiau Parc Rhosybol | 8,000.00 | Friends of Rhosybol Park |
| Cyngor Tref Biwmares | 8,000.00 | Beaumaris Town Council |
| Tudur Cyf (Canolfan Ebeneser) | 7,941.00 | Tudur Cyf (Canolfan Ebeneser) |
| Clwb Rhwyfo Biwmares | 7,835.00 | Beaumaris Rowing Club |
| Clwb Criced Bodedern | 5,670.00 | Bodedern Cricket Club |
| Ffrindiau Llangoed | 5,497.00 | Friends of Llangoed |
| Clwb Pel droed Llangoed | 5,469.00 | Llangoed Football Club |
| Clwb Criced Porthaethwy | 5,161.00 | Menai Bridge Cricket Club |
| Canolfan Gymuned Gwelfor | 3,500.00 | Gwelfor Community Centre |
| Canolfan Gymuned Newry | 3,500.00 | Newry Community Centre |
| Neuadd Bentref Rhosneigr | 3,500.00 | Rhosneigr Village Hall |
| Sefydliad Coffau Rhyfel Amlwch | 3,500.00 | Amlwch War Memorial Institute |
| Neuadd Gymunedol Llaingoch | 3,500.00 | Community Hall Llaingoch |
| Neuadd Bentref Elusen David Hughes (Cemaes) | 3,500.00 | David Hughes Charity (Cemaes) Village Hall |
| Neuadd Gymuned David Hughes Biwmares* | 6,215.00 | Community Hall David Hughes Beaumaris* |
| Clwb Pel droed Iau Tref Amlwch | 3,150.00 | Amlwch Town Juniors Football Club |
| Neuadd Gymuned Coffau Rhyfel Porthaethwy* | 5,031.95 | Menai Bridge War Memorial Community Centre* |
| Canolfan Esceifiog Gaerwen* | 5,734.18 | Esceifiog Centre Gaerwen* |
| Neuadd y Plwyf Llandegfan | 2,731.26 | Llandegfan Parish Hall |
| Neuadd Pritchard Jones Niwbwrch | 2,722.10 | Pritchard Jones Hall Newborough |
| Age Well Môn | 2,500.00 | Age Well Anglesey |
| Neuadd Bentref Llanfaethlu | 2,476.11 | Llanfaethlu Village Hall |
| Neuadd Bentref Bae Trearddur | 2,254.71 | Trearddur Bay Village Hall |
| Neuadd Goffa Pentraeth | 2,135.95 | Pentraeth Memorial Hall |
| Anglesey Showstoppers | 2,000.00 | Anglesey Showstoppers |
| Pwyllgor Hen Ysgol Marianglas | 1,930.65 | Hen Ysgol Marianglas Committee |
| Canolfan Gymuned Kingsland* | 7,906.87 | Kingsland Community Centre* |
| Cymdeithas Chwaraeon a Chymdeithasol Porth Amlwch | 1,900.11 | Amlwch Port Sports & Social Association |
| Cyngor Cymuned Fali | 1,813.00 | Valley Community Council |
| Neuadd Goffa Bodedern | 1,765.22 | Bodedern Memorial Hall |
| Neuadd Bentref Llangoed | 1,653.24 | Llangoed Village Hall |
| Neuadd Bentref Aberffraw | 1,635.93 | Aberffraw Village Hall |
| Clwb Pel droed Bro Goronwy | 1,626.00 | Bro Goronwy Football Club |
| Canolfan Gymuned Penysarn | 1,554.48 | Penysarn Community Centre |
| Pwyllgor Cae Chwarae Bodffordd | 1,428.00 | Bodffordd Playing Field Committee |
| Clwb Arlunio Moelfre | 1,408.00 | Moelfre Art Club |
| Neuadd Bentref Talwrn* | 2,561.33 | Talwrn Village Hall* |
| Neuadd Bentref Caergeiliog | 1,273.32 | Caergeiliog Village Hall |
| CanolfanGymuned Brynteg | 1,222.73 | Brynteg Community Centre |
| Y Ganolfan Brynsiencyn | 1,188.84 | Y Ganolfan Brynsiencyn |
| Neuadd Goffa Goronwy Owen | 1,187.22 | Goronwy Owen Memorial Hall |
| Neuadd Cymunedol Penrhoslligwy | 1,000.86 | Penrhoslligwy Community Hall |
| Tyddyn Môn | 1,000.00 | Tyddyn Môn |
| Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru | 1,000.00 | Red Squirrels Trust Wales |
| Gwyl Bwyd Biwmares | 1,000.00 | Beaumaris Food Festival |
| Cymdeithas MS | 1,000.00 | MS Society |
| Gwyl Bwyd Môr Menai | 1,000.00 | Menai Seafood Festival |
| *** Mwy nag un dyraniad** | **810,155.64** | ***More than one allocation** |

**Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr**

Yr ymddiriedolwr sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig (Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ôl cyfraith elusennau Lloegr a Chymru, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg o'r elusen, yr adnoddau mewnol a'r defnydd o adnoddau yr elusen am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr:-

**(a)** ddefnyddio a chymhwyso yn gyson bolisïau cyfrifyddol addas a luniwyd;
**(b)** dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiadiadau Cymeradwyol o Ymarferion Elusennnau;
**(c)** gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog;
**(ch)** datgan os yw'r polisïau a fabwysiadwyd yn gyson gyda'r safonau Cyfrifydd perthnasol, gyda'r safonau cyfrifo priodol, yn amodol ar i'r amrywiadau sylweddol gael eu nodi a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol; a
**(d)** paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes byw onid yw'n amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol digonol sydd yn dangos, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw bryd, sefyllfa ariannol yr elusen, sydd yn caniatáu iddynt sicrhau bod sefyllfa ariannol yr elusen a'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Elusennau 2011, Rheoliadau (Cyfrifo a Ymadrodd) Elusennau a'r darpariaethau o fewn gweithredoedd yr ymddiriedolaeth. Yr ymddiriedolwr sydd hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Elusen ac, felly, am gymryd camau priodol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn**

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn am y flwyddyn i'r 31[ain] Mawrth 2015, sydd yn cynnwys y Datganiad o Weithredoedd Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig (Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi ar gyfer yr ymddiriedolwr, fel corff, yn unol ac Adran 144 o'r Ddeddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau o dan Adran 154 o'r Ddeddf. Mae'n gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i ymddiriedolwr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd mewn adroddiad archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at yr eithaf a ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw yr elusen ac ymddiriedolwr yr elusen, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

**Priod Gyfrifoldebau Yr Ymddiriedolwr a'r Archwiliwr**
Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr, yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol sy'n rhoi golwg gwir a theg.

Yr ydym wedi ein hapwyntio fel archwiliwr yn unol ag Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â rheoliadau o dan Adran 154 o'r Ddeddf. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a rhoi barn arnynt yn unol â gofynion y gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'n ofynnol dan y safonau hynny i gydymffurfio a Safonau Moesol i Archwilwyr gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Parhad)**

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn cynnwys sicrhau tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sydd yn ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiad sylweddol, boed hynny wedi'i achosi trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o:-
os yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r cwmni elusennol, wedi eu defnyddio yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; o resymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaethpwyd gan yr ymddiriedolwyr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, 'rydym wedi darllen yr wybodaeth ariannol a di-ariannol yn Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol i adnabod os oes anghysondeb sylweddol gyda'r datganiadau ariannol sydd wedi eu harchwylio. Os dawn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol amlwg, rydym yn ystyraied golygiadau ein adroddiad.

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Yn ein barn, mae'r datganiadau ariannol yn:-

- rhoi golwg gwir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2015, ac am yr adnoddau a dderbyniwyd a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol a'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig ; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

**Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad**

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglŷn â'r materion canlynol lle mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:-

- bod yr wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwr yn sylweddol anghyson gyda'r datganiadau ariannol;
- nad yw cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno a'r cofnodion a'r dychweliadau cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

*W J Matthews a'i Fab*
*Archwiliwr Statudol*
*Cyfrifwyr Siartredig*
*11-15 Y Bont Bridd*
*Caernarfon LL55 1AB*

*Dyddiedig:*

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **25 IONAWR 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYLLIDEB 2017/18** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYLLIDEB AMLINELLOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **MABWYSIADU'R GYLLIDEB AR GYFER 2017/18** |

**1. Crynodeb**

**1.1** Mae'n rhaid wrth yr adroddiad hwn i gadarnhau dyraniadau cyllido ar gyfer 2017/18.

**1.2** Yn 2016/17 Cyllideb yr Ymddiredolaeth oedd:-

**O'r Gronfa Gyffredin**
- Oriel Ynys Môn £215k;
- Neuaddau Pentrefi £80k;
- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bach £125k;
- Menter Môn £110k;
- Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn £40k;
- Urdd £40k; and
- Ffermwyr Ifanc Ynys Môn £30k.

**Cyfanswm £640k**

- **O'r Gronfa Cyfalaf**
- Cwmni Fran Wen £45k;
- Eisteddfod Genedlaethol £37.5k;
- Llangefni Social Enterprise £37.5k; a
- Menter Iaith £50k.

**Cyfanswm £170k**

**2. Gwerth Portffolio ac Incwm Buddsoddi Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn 2017/18**

- Gwerth presennol y Portffolio yw £22,487,169;
- Rhagolygon diweddaraf yr Incwm Buddsoddi ar gyfer 2017/18 yw £675,000;
- Rhagolygon Ffioedd Rheoli ar gyfer 2017/18 sydd yn seiliedig ar raddfa sefydlog o 0.3% yw £67,462; a
- Roedd diffyg o £206,368 yn yr Arian Wrth Gefn wedi eu cario ymlaen o 2015/16. Gweler y Datganiad Ar Weithgareddau Cyllidol or Adroddiad Blynyddol 2015/16.

## 3. Symudiadau yn Arian Wrth Gefn yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

| | 2016/17<br>£000 | 2017/18<br>£000 |
|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi | 675 | 675 |
| Llai ffioedd rheoli buddsoddi | (42) | (67) |
| Ar gael i wario | 633 | 608 |

**Gwariant**

| | | |
|---|---|---|
| Gwariant Grant (para4) | 640 | 605 |
| Costau Gweinyddol y Cyngor (para 5) | 0 | 30 |
| Cyfanswm Gwariant | 640 | 635 |

**Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn**

| | | |
|---|---|---|
| I/(O) Arian Wrth Gefn | (7) | (27) |
| Arian dros ben / (Diffyg) a Ragolygwyd ar ddiwedd y flwyddyn | (213) | (240) |

## 4. Cynnig Cyllideb 2017/18 yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

| Math o Grant | Cyllideb o'r Gronfa Gyffredin £'000 | Cyllideb o'r Gronfa Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| Oriel Ynys Môn | 215 | |
| Neuaddau Pentref | 70 | |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan | 100 | |
| Grantiau Mawr | | 350 |
| Ymrwymiadau Tymor Hir:- | | |
| Ffermwyr Ifanc Ynys Môn | 30 | |
| Urdd Gobaith Cymru | 40 | |
| Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn | 40 | |
| Menter Môn | 110 | |
| | 605 | 350 |

Bwriedir torri cylllideb y Neuaddau Pentref o £80k fel y dyfarnwyd yn 2016/17 i £70k. Dangosir hyn yn y swm a wariwyd gan y Neuaddau Pentref (£67k yn 2015/16 a £49k i fyny i Chwarter 3 yn 2016/17).

Bwriedir torri'r gyllideb i Gyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychain o £125k fel y dyfarnwyd yn 2016/17 i £100k. Dangosir hyn yn faint a wariwyd gan y Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychain (£103k yn 2015/16 a £86k yn 2016/17).

O ganlyniad i'r cynnig cyllideb yma, bydd diffyg o £240k yn cael ei cario ymlaen i 2018/19. Fodd bynnag, bydd rhan fwyaf o'r diffyg yma yn cael ei dynnu allan pan ddaw Ymrwymiadau Tymor Hir £220k i ben.

**5. Costau Gweinyddol y Cyngor**

Yn ei gyfarfod ar y 13 Medi 2016, cytunodd yr Ymddiriedolaeth i dalu cyfraniad am gyflogau swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gweithredu ar ran yr Ymddiriedolaeth. Y gyllideb am hyn yn 2017/18 yw £30k.

**6. Y Cylch Cyllido 2017/18**

Cynigir cyhoeddi hysbysebion am grantiau blynyddol bychan i'w dyfarnu gan y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yng nghanol mis Mawrth 2017, gyda dyddiad cau o 12 Mai 2017 ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Gweler Rhan 8(a) ar gyfer y gyllideb a argymhellir.

**7. Grantiau Mawr 2017/18**

Yn ei gyfarfod ar 1 Tachwedd 2016, penderfynodd y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau fod dyraniad o £350k yn cael ei wneud ar gael at gyllido grantiau mawr yn 2017/18.

**8. Argymhellion**

**(a)** Mabwysiadu'r gyllideb am 2017/18 fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Oriel Ynys Môn | £215k |
| Neuaddau Pentref | £ 70k |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan | £100k |
| Cyngor Sir Ynys Môn (gweler rhan 5 uchod) | £ 30k |
| Grantiau Mawr o Gronfa Cyfalaf (gweler rhan 7 uchod) | £350k |
| Ymrwymiadau Tymor Hir parhaus (wedi eu torri lawr yn nhabl 4) | £220k |

**(b)** Dirprwyo swm o £100k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i ddelio gyda cheisiadau ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD –**
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **18 IONAWR 2017**

This page is intentionally left blank